# COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DYDD MAWRTH, 17 HYDREF 2023, AM 14:30

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JC Spanswick | N Farr | J Gebbie | W R Goode |
| HM Williams | JPD Blundell | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Delyth Webb | Rheolwr Grwp Adfywio Strategol |

## 241. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Cyng JP Blundell
Cyng R Goode
Cyng J Spanswick

## 242. MONITRO CYLLIDEB 2023-24 - RHAGOLWG REFENIW CHWARTER 2

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ar sefyllfa ariannol refeniw'r Cyngor ar 30 Medi 2023 ac yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer unrhyw drosglwyddiadau dros £100,000 sydd angen cymeradwyaeth gan y Cabinet fel sy'n ofynnol gan Reolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

Tynnodd sylw’r Aelodau at adran 3 o’r adroddiad a oedd yn amlinellu’r sefyllfa ariannol bresennol ar 30 Medi 2023. Roedd Tabl 1 yn darparu cymhariaeth o'r gyllideb yn erbyn yr alldro a ragwelir ar 30 Medi 2023, tra bod Tabl 2 yn darparu Gostyngiadau Cyllideb y flwyddyn flaenorol sy'n weddill.

Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid mai’r sefyllfa ragamcanol gyffredinol ar 30 Medi 2023 oedd gorwariant net o £10.932 miliwn yn cynnwys gorwariant net o £15.284 miliwn ar gyfarwyddiaethau a thanwariant net o £4.352 miliwn ar gyllidebau’r Cyngor cyfan. Rhagor o wybodaeth am drosglwyddiadau/addasiadau technegol y Gyllideb, Cynigion Lleihau'r Gyllideb a gwybodaeth arall yn Atodiadau 1 i 3 yr adroddiad.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a Chyfreithiol ei fod yn sefyllfa siomedig yr oedd y Cyngor ynddi. Mae'n rhaid i ni nawr edrych ar bob ceiniog sy'n cael ei gwario ar draws y Cyngor i sicrhau'r arbedion mwyaf posibl. Ychwanegodd fod pob

Cyngor ar draws Cymru mewn sefyllfaoedd tebyg a'i fod wedi gobeithio y gallai setliad y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf helpu gyda'r sefyllfa hon.

Cafwyd trafodaeth bellach ar y gorwariant ar draws y Cyngor ac atebwyd cwestiynau oddi wrth y Cabinet gan y Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Prif Swyddogion sydd i'w gweld yma.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn

- nodi'r sefyllfa refeniw ragamcanol ar gyfer 2023-24;
- cymeradwyo'r trosglwyddiadau dros £100,000 fel yr amlinellwyd ym mharagraff 3.1.6.

243. DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN GYFALAF - CHWARTER 2 2023-24

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad a oedd yn ceisio:

- Cydymffurfio â gofyniad y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) 'Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol' (rhifyn 2021) i adrodd ar berfformiad yn erbyn yr holl ddangosyddion sy'n edrych i'r dyfodol bob chwarter.

- rhoi diweddariad ar sefyllfa’r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2023-24 ar 30 Medi 2023 (Atodiad A).

- ceisio cytundeb gan y Cabinet i gyflwyno adroddiad i'r Cyngor i'w gymeradwyo ar gyfer rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2023-24 i 2032-33 (Atodiad B).

- nodi’r Dangosyddion Darbodus ac Eraill a ragwelir ar gyfer 2023-24 (Atodiad C)

Esboniodd fod y rhaglen ddiwygiedig ar gyfer 2023-24 ar hyn o bryd yn dod i gyfanswm o £81.817 miliwn, a bod £44.574 miliwn ohono’n cael ei dalu o adnoddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP), gan gynnwys derbyniadau cyfalaf, cyfraniadau refeniw o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a benthyca, gyda’r gweddill o £37.243 miliwn yn dod o adnoddau allanol, gan gynnwys Grant Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Cymru.

Amlygodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid y tablau amrywiol yn yr adroddiad a oedd yn rhoi dadansoddiad o wariant ac adnoddau amrywiol y gyfarwyddiaeth. Nododd hefyd nifer o ddiwygiadau i’r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2023-24, megis cynlluniau newydd a diwygiedig, ers i’r rhaglen gyfalaf gael ei chymeradwyo ddiwethaf. Nodwyd y rhain yn adran 3.1 o'r adroddiad. Mae’r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig i’w gweld yn atodiad B.

Fe wnaeth yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a Chyfreithiol ofyn bod gan y prosiect Lleoedd Lleol i Natur broses ymgynghori llawn â staff a’r cyhoedd yn ehangach er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y defnydd gorau o’n hasedau.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a’r Amgylchedd mewn perthynas â’r arian Adran 106 o £2.44 miliwn yn Nhabl 2 yr adroddiad, a ellid gwneud mwy o ymhelaethu ar hyn er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth i’r Cabinet o’r hyn y dyrannwyd hwn iddo.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau bod yr arian hwn yn cael ei gytuno drwy'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a'i ddyrannu i brosiectau neu safleoedd penodol ledled

y Fwrdeistref. Bydd yr arian yn eistedd tan yr amser y bydd y safleoedd hyn yn dechrau'r gwaith ond y byddai'n cael ei wario pan oedd angen. Rhoddodd enghraifft o ddatblygiad tai lle gall yr arian weithiau eistedd tan ddiwedd y datblygiad cyn cael ei ddefnyddio. Ychwanegodd, er budd dealltwriaeth, y byddai'n darparu dadansoddiad o'r arian mewn adroddiadau yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD: bod y Cabinet yn:

- nodi diweddariad Chwarter 2 Rhaglen Gyfalaf 2023-24 y Cyngor hyd at 30 Medi 2023 (Atodiad A).
- cytuno bod y Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (Atodiad B) yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor i'w chymeradwyo.
- nodi'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill rhagamcanol ar gyfer 2023-24 (Atodiad C).

244. ADRODDIAD HANNER BLWYDDYN AR REOLI'R TRYSORLYS 2023-24

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad, ei bwrpas oedd:

- Cydymffurfio â gofyniad y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) 'Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer' (Cod CIPFA). Ac;

- Adroddiad ar Ddangosyddion Rheoli’r Trysorlys ar gyfer yr hanner blwyddyn Ebrill i Medi 2023.

Darparodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid rywfaint o gefndir economaidd a oedd wedi'i ddylanwadu gan y newidiadau mewn chwyddiant a GDP, a nodwyd mwy o fanylion yn adran 3 o'r adroddiad.

Fe wnaeth hi amlygu sefyllfa dyled a buddsoddiad allanol y Cyngor ar 30 Medi 2023. Ar hyn o bryd roedd £99 miliwn mewn dyled tymor hir ac un buddsoddiad tymor hir a oedd yn dal i fod heb ei dalu ac roedd hyn wedi'i nodi yn 3.3.7 o'r adroddiad.

Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid nad oedd unrhyw fwriad i'r Cyngor fenthyca yn y flwyddyn ariannol i ddod, fodd bynnag os bydd unrhyw gyfle i aildrefnu benthyciadau ar gyfradd ffafriol, bydd y Cyngor yn ceisio gwneud hynny.

Fe wnaeth yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a Chyfreithiol groesawu ad-daliad terfynol y benthyciad gan Gyngor Thurrock sydd wedi ennill dros £100,000 mewn llog i CBS Pen-y-bont ar Ogwr.

Fe wnaeth yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a’r Amgylchedd ofyn, mewn perthynas â’r $5.8million o fuddsoddiadau, a ellid darparu rhagor o wybodaeth am hyn. Darparodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid eglurhad manwl ar hyn.

PENDERFYNWYD: bod y Cabinet yn:

- Nodi gweithgareddau rheoli'r trysorlys ar gyfer 2023-24 am y cyfnod hanner blwyddyn 1 Ebrill 2023 i 30 Medi 2023

- Nodi Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer yr hanner blwyddyn yn diweddu 30 Medi 2023 yn erbyn y rhai a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023-24.'r

245. STRATEGAETH YMGYSYLLTU A CHYFRANOGI

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad i'r Cabinet ar y Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogi ddrafft a oedd yn nodi sut y byddai'r Cyngor yn ymgysylltu â'r cyhoedd. Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth ddrafft ac yn nodi yn dilyn y cyfnod ymgynghori y bydd y Strategaeth derfynol yn cael ei hadrodd yn ôl i'r Cabinet i'w chymeradwyo.

Eglurodd fod y Strategaeth yn cwmpasu'r angen i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ar draws amrywiaeth o feysydd fel y nodir yn adran 3 o'r adroddiad. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus llawn am gyfnod o 12 wythnos i geisio barn dinasyddion a rhanddeiliaid ar y Strategaeth arfaethedig. Mae cynllun ymgysylltu wedi'i ddatblygu i gefnogi hyn. Roedd y Strategaeth Ddrafft ynghlwm yn Atodiad 1.

Fe wnaeth yr Aelod Cabinet dros Dai, Cynllunio ac Adfywio groesawu'r adroddiad. Gofynnodd i ni sicrhau, wrth symud ymlaen, y gall preswylwyr gydgynhyrchu a chael eu cynnwys yn gynharach yn y broses, er mwyn sicrhau’r ymgysylltu mwyaf â phreswylwyr. Ychwanegodd fod ymgysylltu â chymunedau anoddach eu cyrraedd hefyd yn bwysig i sicrhau nad oedd eu barn yn cael ei cholli. Gofynnodd hefyd inni sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed, a’i fod yn gytbwys i sicrhau bod y safbwyntiau’n adlewyrchu cymaint o bobl â phosibl.

Fe wnaeth yr Aelod Cabinet Cyllid, Adnoddau a Chyfreithiol groesawu'r adroddiad gan obeithio y byddai'r Pwyllgor Craffu perthnasol yn cael cyfle i edrych ar hyn a rhoi eu barn hefyd.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo cychwyn ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogi ddrafft a nodi y bydd y Strategaeth derfynol yn cael ei hadrodd yn ôl i'r Cabinet i'w chymeradwyo.

246. TARGEDAU CYNLLUN CYFLAWNI'R CYNLLUN CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyo'r targedau perfformiad blynyddol arfaethedig ar gyfer 2023-24 ar gyfer y dangosyddion perfformiad yng Nghynllun Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol (CPDP) a oedd yn cefnogi Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor.

Eglurodd fod y Dangosyddion Perfformiad a’r targedau wedi’u cynnwys yn Atodiad 1, ac roeddent yn amlygu’r pwyntiau canlynol:

- Mae 99 PI ar gyfer y saith amcan llesiant.
- Gellir adrodd ar bron i hanner y dangosyddion hynny bob chwarter (47 o ddangosyddion).
- Mae data tueddiadau ar gael ar 60% o ddangosyddion.
- Mae gan 87% o ddangosyddion (86) dargedau arfaethedig bellach. O'r rhain, mae gan 60% (52) dargedau i wella perfformiad neu fe'u gosodir ar lefel uchaf. Mae gan 13% (11) dargedau i gynnal perfformiad. Mae'r lleill yn ddangosyddion newydd lle nad oes gennym ddata perfformiad hanesyddol.

Fe wnaeth yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd groesawu'r adroddiad a'r fformat hawdd ei ddarllen a fydd yn helpu'r Cyngor i fonitro perfformiad

wrth symud ymlaen. Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod y wybodaeth yn yr adroddiad hefyd wedi'i gweld gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol fis diwethaf, a'u bod yn awyddus bod y rhesymeg yn cael ei gwella ac yn gliriach.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd fod angen i ni gynnwys mwy o ddangosyddion perfformiad mewn adroddiadau yn y dyfodol i fonitro ein cynnydd o ran cynyddu nifer y coed sy'n cael eu plannu.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn ystyried a chymeradwyo'r targedau ar gyfer Dangosyddion Perfformiad y Cynllun Corfforaethol yn Atodiad 1.

247. PENODI LLYWODRAETHWYR AWDURDOD LLEOL

Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd gyflwyno adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i benodi llywodraethwyr awdurdod lleol i'r cyrff llywodraethu ysgolion a restrir ym mharagraffau 3.1.

Eglurodd, ar gyfer y 9 lle gwag presennol ar gyfer llywodraethwyr awdurdod lleol yn yr 8 ysgol yn y tabl yn adran 3 o'r adroddiad, fod yr ymgeiswyr yn bodloni'r meini prawf cymeradwy ar gyfer penodi llywodraethwr awdurdod lleol ac nad oedd cystadleuaeth am y lle gwag.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r penodiadau y manylwyd arnynt ym mharagraff 3.1.

248. CYMORTH/RHEOLAETH YMDDYGIAD CADARNHAOL A'R DEFNYDD O BOLISI ARFERION CYFYNGOL

Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles gyflwyno adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg i'r Cabinet o ddatblygiad y Cymorth/RheolaethYmddygiad Cadarnhaol arfaethedig a'r defnydd o Bolisi Arferion Cyfyngol (Atodiad 1) a gofynnodd am gymeradwyaeth y Cabinet i weithredu'r Polisi ar draws y gwasanaethau gofal a reoleiddir a ddarperir gan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Dywedodd fod y polisi arfaethedig wedi'i greu i gwmpasu a chefnogi'r holl wasanaethau gofal a reoleiddir a ddarperir gan Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (SSWB) Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogw (CBSP), yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Roedd cefndir pellach ar arferion cyfyngedig a'r fframwaith a ddatblygwyd i gefnogi lleihau Arferion Cyfyngol yn adran 3 o'r adroddiad.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd nad oes gennym drwyddedau ar gyfer unrhyw fath o gyfyngiadau mecanyddol. Byddai unrhyw ddefnydd o gyfyngiadau meddygol yn cael ei amlygu yng nghynllun asesiad risg a gofal rhywun.

Fe wnaeth hi ychwanegu ei bod yn bwysig bod y cynllun yn amlygu pa ddull cyfyngu y gellir ei ddefnyddio, ac ar ba bwynt, a hefyd y gellid sicrhau bod y staff sy'n cyflawni'r dulliau hyn yn cael eu cefnogi yn ogystal â'r claf.

Tynnodd y Dirprwy Arweinydd sylw at y ffaith bod cyfyngiadau'n cael eu defnyddio fel y dewis olaf gan fod tawelu'r sefyllfa yn bwysicach ac y dylid defnyddio hyn lle bo modd.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Ddiogelwch Cymunedol a Llesiant pwy oedd wedi bod yn rhan o'r broses ymgynghori ar y polisi hwn. Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yr ymgynghorwyd â rheolwyr gwasanaeth wrth

ddatblygu'r adroddiad yn ogystal â chynrychiolydd undeb llafur yn CBSP. Mae hi hefyd wedi awgrymu bod cofnodi digwyddiadau wedi'i gynnwys yn y dangosfwrdd diogelu corfforaethol.

PENDERFYNWYD: bod y Cabinet yn ystyried a chymeradwyo gweithredu'r Cymorth/Rheolaeth Ymddygiad Cadarnhaol a'r defnydd o'r Polisi Arferion Cyfyngol sydd ynghlwm fel Atodiad 1.

249. PROSIECTAU TRAFNIDIAETH STRATEGOL

Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau gyflwyno adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am brosiectau trafnidiaeth strategol presennol a phosibl y Cyngor yn y dyfodol a gofynnodd am awdurdodiad i gynlluniau symud ymlaen ar gyfer unrhyw gamau'r Metro yn y dyfodol neu geisiadau ariannu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol eraill.

Fe wnaeth hi amlygu'r Cynlluniau Trafnidiaeth Strategol amrywiol a oedd ar y gweill ar hyn o bryd yn ogystal â'r Prosiectau Trafnidiaeth Strategol arfaethedig fel y nodir yn adran 3 yr adroddiad.

Fe wnaeth yr Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd amlygu'r ffaith bod llawer o gynlluniau wedi'u rhestru ar y Llwybrau Teithio Llesol a oedd angen cyllid cyn y gellid eu gweithredu. Roedd yn gobeithio y gallai nifer o'r cynlluniau hyn dderbyn cyllid, sef cynllun Gorsaf Reilffordd Bracla sydd wedi'i restru ers tua 20 mlynedd.

Ychwanegodd yr Arweinydd bod y prosiectau a restrwyd yn ddyheadau'r Cyngor, ac nid yn rhai oedd i gyd ar y gweill i gychwyn yn syth, ond ei bod yn bwysig cael prosiectau a nodwyd er mwyn cychwyn pan fydd arian ar gael.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet Addysg a oedd cyfleoedd i Aelodau Lleol y prosiectau hyn gael sgyrsiau gyda Swyddogion yn eu cylch yn ogystal â bwydo i mewn i drafodaethau yn y dyfodol. Cadarnhaodd Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu yr ymgynghorwyd â'r Aelodau lleol ar bob cynllun newydd pan fyddai'r broses yn mynd rhagddi. Cafwyd trafodaethau pellach ar yr eitem hon sydd i'w gweld yma.

PENDERFYNWYD: bod y Cabinet yn:

1. Ystyried y wybodaeth yn yr adroddiad hwn a nododd y cynnydd ar y Rhaglen Teithio Llesol a Metrolink Porthcawl.

2. Cymeradwyo'r prosiectau trafnidiaeth strategol arfaethedig fel y nodir uchod i'w cynnwys fel rhan o unrhyw geisiadau yn y dyfodol i Raglen Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, y Gronfa Ffyniant Bro, neu gyfleoedd ariannu eraill yn ogystal â bod yn sail ar gyfer trafodaeth â chyrff trafnidiaeth allanol eraill ar flaenoriaethau trafnidiaeth strategol cenedlaethol a rhanbarthol.

250. DIWEDDARIAD AR BROSIECT CRONFA FFYNIANT BRO PAFILIWN Y GRAND, PORTHCAWL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau adroddiad a oedd yn:

- Diweddaru'r Cabinet ar y cynnydd a wnaed a'r penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â dylunio, caffael a rhaglen prosiect Pafiliwn y Grand Porthcawl;

- Ceisio awdurdod i atal gofynion Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor ac awdurdodi ein partneriaid gwasanaethau diwylliannol AWEN i gaffael

gwasanaethau Penseiri Purcell trwy fframwaith PAGABO i barhau â gwasanaethau dylunio Cam 4 RIBA ar gyfer y prosiect.

Darparodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau rywfaint o gefndir ar gyfer y prosiect a'r cais ac amlygodd y cyfleusterau newydd a gynigiwyd yn y cynnig. Esboniodd fod telerau presennol y dyfarniad grant yn nodi y bydd y prosiect yn cael ei gwblhau erbyn Gwanwyn 2025. Mae'n hollbwysig bellach bod y prosiect yn mynd rhagddo'n gyflym, bod y cam dylunio manwl wedi'i gwblhau, caniatâd cynllunio wedi'i gymeradwyo, a bod tîm gwasanaethau proffesiynol a phrif gontractwr yn eu lle i alluogi'r gwaith ar yr adeilad ei hun i ddechrau yn y Gwanwyn 2024.

Rhoddodd gefndir i'r cais a'r cyfleusterau a gynigir yn y cynnig hwnnw. Ar 20 Ionawr 2023, hysbyswyd y Cyngor bod y cais yn llwyddiannus ac y byddai'r Cyngor yn cael £18m tuag at Brosiect Pafiliwn y Grand. Er mwyn sicrhau nad yw'r prosiect yn achosi unrhyw oedi pellach a'i fod yn cael ei gyflawni yn unol â'r rhaglen gyfredol ac yn unol â thelerau ac amodau'r grant, mae'r adrannau isod yn nodi'r broses llywodraethu, ymgynghori a chaffael sydd wedi'i chynnal neu sy'n ofynnol i'w symud ymlaen. Roedd rhagor o wybodaeth am hyn wedi'i nodi yn adran 3 o'r adroddiad.

Fe wnaeth Aelod y Cabinet dros Dai, Cynllunio ac Adfywio groesawu'r adroddiad a dywedodd, fel yr Aelod Cabinet a lofnododd y Penderfyniad Dirprwyedig ar gyfer atal y CPR, ei fod yn deall brys y gwaith hwn i sicrhau ein bod yn awdurdodi ein partneriaid gwasanaethau diwylliannol AWEN i benodi penseiri Purcell Ltd, a ymgymerodd â'r dyluniadau gwreiddiol a gwaith Cam 3 RIBA, i gwblhau gwaith dylunio manwl RIBA 4 hyd at werth o £100,000.

Ychwanegodd fodd bynnag, fod y CPR's yn eu lle am reswm da, a'i bod yn bwysig myfyrio ar hyn gyda'n partneriaid i sicrhau ein bod yn lliniaru risg i bwrs y cyhoedd. Yn dilyn y pwynt hwn, gofynnodd faint o risg y mae'r prosiect hwn yn ei wynebu os ydym yn cytuno i atal y CPR's. Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau amlygu pwynt 3.8 o'r adroddiad a oedd yn amlinellu'r risgiau sy'n gysylltiedig ag atal y CPRs. Ychwanegodd y byddai angen i ni ymrwymo tua £650,000 ar hyn o bryd yn ariannol.

Amlygodd y Dirprwy Arweinydd fod gennym £2 filiwn wedi'i ddyrannu i'r prosiect hwn a gofynnodd am sicrwydd ein bod yn gallu defnyddio hwn o ystyried y pwysau presennol ar y gyllideb.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, er mwyn derbyn y cyllid grant o £18 miliwn gan LUF, un o amodau'r grant oedd bod CBSP yn darparu £10%. Roedd yr arian hwn eisoes wedi'i glustnodi yn ein Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y prosiect hwn. Pe na byddem yn dangos ein bod yn gallu darparu'r arian hwn, byddai'r £18 miliwn wedi'i golli. Amlygodd hi, er mwyn peidio â defnyddio'r 10%, roeddem yn edrych i mewn i'r posibilrwydd y byddai darparwyr allanol yn talu'r swm hwnnw, a allai wedyn gael ei ryddhau ar gyfer prosiectau neu wasanaethau eraill pe byddai'n llwyddiannus. Cafwyd trafodaethau pellach ar yr eitem hon ac atebwyd cwestiynau gan Swyddogion.

<u>PENDERFYNWYD:</u> bod y Cabinet yn:

- Nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud mewn perthynas â dyluniad y prosiect.
- Nodi y bydd llywodraethu priodol a chadarn yn cael ei roi ar waith i gefnogi'r prosiect hwn.

- Nodi'r penderfyniad dirprwyedig (CMM-PRU-23-30) i atal CPRs y Cyngor mewn perthynas â chaniatáu i'n partneriaid gwasanaethau diwylliannol AWEN gaffael gwasanaethau Penseiri Purcell trwy fframwaith PAGABO i gychwyn cam dylunio Cam 4 RIBA ar gyfer Prosiect Pafiliwn y Grand ym Mhorthcawl.

- Cytuno i atal CPR's y Cyngor ymhellach er mwyn caniatáu i'n partner diwylliannol AWEN gaffael gweddill y gwaith dylunio ar gyfer Pafiliwn y Grand, Porthcawl gyda Phenseiri Purcell drwy'r Fframwaith PAGABO, er mwyn sicrhau bod y broses ddylunio'n cael ei chwblhau o fewn yr amserlenni a nodir gan y cytundeb ariannu LUF.

- Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid a'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, AD a Pholisi Corfforaethol, i wneud unrhyw gytundebau gofynnol i amnewid penodiadau dylunio i hysbysu caffael y prif gontractwr gwaith.

- Nodi bod y Cyfarwyddwr Cymunedau yn symud ymlaen gyda phenodi Ymgynghorydd Costau prosiect yn unol â CPR's y Cyngor.

- Nodi y bydd adroddiad yn y dyfodol i'r Cabinet a'r Cyngor yn cael ei gyflwyno maes o law i nodi goblygiadau ariannol y prosiect, cyn caffael contractwr gwaith ar gyfer y contract adeiladu ar gyfer prosiect Pafiliwn y Grand.

251. EITEMAU BRYS

Dim